Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaethau cerddoriaeth: adroddiad blwyddyn yn ddiweddarach

## Adroddiad cynnydd ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru

Ebrill 2017



# Gwasanaethau cerddoriaeth: adroddiad blwyddyn yn ddiweddarach

## Cynulleidfa

Ysgolion cynradd; ysgolion canol; ysgolion uwchradd; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; consortia rhanbarthol; partneriaid cenedlaethol; Estyn; undebau'r athrawon; cyrff cenedlaethol sy'n ymwneud â'r maes addysg; ac aelodau'r cyhoedd.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma i gyflawni amcanion *Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru* (2015) a dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r adroddiad hwnnw.

## Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-mail: CurriculumCorrespond@cymru.gsi.gov.uk

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgasgiliau

## Dogfennau cysylltiedig

*Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru* (2015)

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG29723 ISBN digidol 978 1 4734 9355 1

## Contents

**Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg 2**
**Cyflwyniad 3**
**Cynnydd - blwyddyn ymlaen 4**
Tasg allweddol 1 4
Tasg allweddol 2 5
Tasg allweddol 3 6
Tasg allweddol 4 7
Tasg allweddol 5 8
Tasg allweddol 6 9
**Atodiad – Crynodeb o CAGAC ar ei newydd wedd 11**

# Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet

Mae cerddoriaeth yn rhan hanfodol o dreftadaeth a bywyd diwylliannol Cymru, gan ein cysylltu â'n gorffennol a rhoi cyfleoedd i'n pobl ifanc ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n gwybod ein bod yn freintiedig fel cenedl i gael rhwydwaith brwd ac ymroddedig o wasanaethau cerddoriaeth ac athrawon cerddoriaeth, sy'n ysbrydoli ein pobl ifanc i berfformio a gwella eu sgiliau, gan ddod yn fwyfwy hyderus. Maent yn meithrin talent plant bob cam drwy strwythur 'pyramid' addysg gerddorol; o'r profiadau cyntaf hynny o greu cerddoriaeth yn y dosbarth i wersi cerddoriaeth unigol, i'r cyfle i gael lle yn un o'n ensembles cerddoriaeth cenedlaethol mawreddog.

Efallai bod sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn agored i bawb, p'un a ydynt yn gallu talu amdanynt ai peidio, yn ymddangos fel tasg hercwleaidd; ond rwy'n siwr y gallwn, drwy gydweithio, eu diogelu i'r dyfodol a gwella'r cyfleoedd cerddorol hyd yn oed y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.

Yn gynharach eleni, mewn cydweithrediad ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, cyhoeddais gyfraniad o £1miliwn i ddechrau'r broses o sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, sef un o argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwasanaethau Cerddoriaeth. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dechrau ar y broses o sefydlu'r gwaddol a byddwn am fanteisio ar arbenigedd a thystiolaeth o bob rhan o'r sectorau celfyddydol a diwylliannol, addysg gerddorol a'r diwydiannau creadigol i lywio'i ddatblygiad.

Yn ogystal ag edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid inni ddelio â'r materion anodd rydym yn eu hwynebu heddiw. Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi awdurdodau lleol i weithredu argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwasanaethau Cerddoriaeth; er mwyn gwarchod y ddarpariaeth graidd i ysgolion a phobl ifanc.

Gan gydweithio ag awdurdodau lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i'w helpu i sefydlu dull rhannu offerynnau cerdd yn genedlaethol. Bydd y dull rhannu yn golygu bod modd i wasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol wneud defnydd gwell o'u stoc bresennol o offerynnau; drwy ryddhau'r cyflenwad a chyflwyno'r arfer o gydgysylltu ar lefel genedlaethol. Bydd y , ynghyd â'r cyllid a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer prynu offerynnau cerddorol a'r Amnest Offerynnau Cerdd, yn golygu y gallwn roi offerynnau yn nwylo'r rheini sydd eu hangen fwyaf.

Drwy weithio mewn partneriaeth agos â sefydliadau ac unigolion ym maes addysg gerddorol, maes sy'n adnabyddus am ei frwdfrydedd, ei ymroddiad a'i benderfyniad, rwy'n gwybod y gallwn ddiogelu addysg gerddorol i'r genhedlaeth nesaf.

**Kirsty Williams**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg



## Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2015 gwnaeth Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, gomisiynu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r materion sy'n gysylltiedig â chyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Cylch gorchwyl y grŵp oedd adolygu'r systemau presennol ar draws Cymru a chynnig argymhellion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau yr oedd yr awdurdodau lleol yn debygol o gyd-gytuno â hwy. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, consortia addysg, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) ac ysgolion. Gofynnwyd iddynt ystyried y canlynol:
:

- dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau;
- opsiynau ar gyfer polisïau codi tâl, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru, darpariaeth decach a mynediad i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim;
- ystyried opsiynau ar gyfer cyflenwi, adnewyddu, prynu a threfniadau llogi offerynnau cerdd
- y potensial am fwy o waith partneriaeth.

Cyhoeddodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei ganfyddiadau ym mis Gorffennaf 2015, gan gyflwyno 15 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a Chyngor Celfyddydau Cymru. Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd ei ymateb, gan dderbyn y rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad.

Ar 14 Chwefror 2017, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gyhoeddi ei hymrwymiad i gefnogi gweithgareddau cerddorol ychwanegol ar gyfer pobl ifanc drwy sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith yn rhoi cyllid gwerth £1 miliwn ar y cyd i sefydlu'r gronfa hon ynghyd â chyllid sbarduno

Mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ar ôl blwyddyn tuag at weithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth.

# Cynnydd – blwyddyn ymlaen

## Tasg allweddol 1

Ystyried dulliau amgen o gyflenwi gwasanaethau sy'n gyson â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

**Argymhellion**

1. **Dylai awdurdodau lleol** ddarparu manylion eu modelau darparu gwasanaeth cyfredol i CLlLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) erbyn mis Hydref 2015.

2. Erbyn mis Medi 2015, **dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â CLlLC a rhanddeiliaid allweddol**, gomisiynu dogfen ganllaw tebyg i 'astudiaeth achos' ar fodelau darparu presennol a modelau darparu posibl i'w hystyried gan lywodraeth leol. Dylid cwblhau'r ddogfen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a'i darparu i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio i'r dyfodol.

3. Dylai **awdurdodau lleol** ystyried yr ystod o fodelau darparu, a dylai CLlLC ddarparu'r model a ffafrir gan bob ALl ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth i Lywodraeth Cymru erbyn mis Hydref 2016.

**Mae CLlLC wedi gweithio gyda'u partneriaid yn yr awdurdodau lleol a CAGAC i archwilio modelau posibl ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Yn dilyn y broses hon cytunwyd y dylid cynnal y drefn bresennol, sef Gwasanaethau Cerddoriaeth a reolir gan yr awdurdod lleol. Roeddent o'r farn bod pob gwasanaeth yn ddigon hyblyg o ran strwythur a chyllid i gyflenwi gweithgareddau cerddorol priodol i'r bobl ifanc yn eu hardal. Mae angen cefnogi'r gwasanaethau er mwyn cynnal eu gallu i addasu i newidiadau yn y galw ac i'r sefyllfa ariannol.**

**Mae CLlLC wedi awgrymu mai'r ffordd orau o gyflenwi Gwasanaethau Cerddoriaeth yw ar lefel yr awdurdod lleol. Ar y lefel hon, bydd modd adlewyrchu anghenion pobl ifanc a chynnal atebolrwydd. Ym marn CLlLC, mae'r strwythur presennol lle mae Gwasanaethau Cerddoriaeth yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol unigol yn sicrhau cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth, gyda gweithgareddau ar gael o'r blynyddoedd cynnar a thrwy'r ysgol, ac mewn addysg ôl-16. Mae'r model hwn yn sicrhau darpariaeth decach ar gyfer pob plentyn ym mhob awdurdod lleol, a hynny ar draws ystod o ddisgyblaethau lleisiol ac offerynnol, ynghyd â llwybr ar gyfer datblygu sgiliau.**

**Cadarnhaodd CLlLC ei bod yn haws cynnal ansawdd y gwasanaeth os yw'r awdurdodau'n rhydd i ffurfio modelau sy'n gallu ymateb i'r galw ar lefel leol. Fodd bynnag, bydd yr awdurdodau'n parhau i archwilio cyfleoedd i gydweithio, lle bo'n briodol.**

**I helpu'r awdurdodau lleol â'r broses o ystyried modelau amgen, mae CAGAC wedi ymgynghori â'r Cyngor Addysg Gerddorol a Music Mark i baratoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran gwasanaethau cerddoriaeth ar draws y DU. Bellach, bydd CAGAC yn ystyried a fyddai adroddiad astudiaeth achos manylach yn helpu i ennyn dealltwriaeth gliriach o'r sefyllfa bresennol.**

**Mae CAGAC hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, roi strwythurau yn eu lle i sicrhau mwy o drafodaeth rhwng ysgolion a Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru a'u helpu i weithio mewn partneriaeth a dal ei gilydd i gyfrif.**

## Tasg allweddol 2

Archwilio opsiynau ar gyfer polisïau codi tâl, gyda golwg ar sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru, darpariaeth decach a mynediad i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

**Argymhellion**

4. **Gan gydweithio â'u hawdurdodau lleol, dylai ysgolion a chyrff llywodraethu** fabwysiadu polisïau clir, teg a chyson ar gyfer codi tâl am wersi cerddorol. Dylai'r polisïau gael lle amlwg yn nogfennau polisi cyhoeddedig yr ysgolion erbyn mis Medi 2016**.** Ar gyfer disgyblion sy'n wynebu tlodi, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio grantiau a'u hadnoddau cyllidebol eu hunain hyd yr eithaf i leihau anfantais.

5. Wrth ystyried modelau darparu newydd, dylai **awdurdodau lleol** geisio sicrhau mwy o gysondeb yn eu hardal leol o ran costau rhedeg y ddarpariaeth gwasanaeth, a sicrhau mwy o gysondeb o ran prisiau yn sgil hynny. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol o fewn y ddwy flynedd nesaf, a dylai gynnwys adolygiad o delerau ac amodau staff y Gwasanaethau Cerddoriaeth, gyda golwg ar sicrhau amodau cyflogaeth teg, cynaliadwy a didwyll.

**Mae CLlLC wedi ein cynghori bod camau wedi'u cymryd i archwilio sut all awdurdodau lleol ac ysgolion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o rôl cerddoriaeth o ran cefnogi llesiant ehangach a nodau academaidd. Bydd y trafodaethau hyn yn cynnwys sut all ysgolion ddefnyddio eu grantiau a'u cyllid dirprwyedig, fel y Grant Amddifadedd Disgyblion, i ddatblygu cynnig eang o ansawdd uchel ar gyfer cerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar y rheini sydd o gefndiroedd difreintiedig.**

**Mae CAGAC, ar ran awdurdodau lleol Cymru, wedi archwilio sut i sicrhau bod Gwasanaethau Cerddoriaeth yn fwy cyson ym mhob ardal. Un o'r prif heriau a nodwyd yn ystod y broses hon oedd bod y gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn fwy na'r gost o'u darparu mewn ardaloedd trefol; roedd teithio a chadw staff mewn ysgolion bach yn faterion penodol.**

**Llwyddwyd eisoes i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol o ran ffioedd dysgu. Byddwn yn ceisio gweithio gyda phartneriaid yn y sector addysg i lunio canllawiau a fydd yn helpu i greu cysondeb rhwng ysgolion o ran ffioedd dysgu, gan sicrhau bod cyfraddau'r ffioedd yn gyfartal mewn awdurdodau lleol unigol.**

**Mae'r telerau ac amodau ar gyfer y staff a gyflogir gan Wasanaethau Cerddoriaeth yn parhau i fod yn hyblyg fel bod y gwasanaethau'n gallu ymateb i newidiadau yn y model cyflenwi ac i'r sefyllfa ariannol. Bydd CLlLC a CAGAC yn parhau i weithio gyda holl Wasanaethau Cerddoriaeth awdurdodau lleol i sicrhau bod y staff a gyflogir yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel a hyfforddiant hanfodol. Os yw staff yn hunangyflogedig, byddant yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.**

**Wrth i'r gwaith ar yr argymhellion hyn fynd rhagddo, bydd CLlLC yn ystyried cael cymorth gan randdeiliaid o fewn ysgolion a Llywodraeth Cymru i lunio Cynllun Cerddoriaeth i Gymru er mwyn sicrhau bod y dull cydweithredol hwn yn cael ei gyflawni.**

## Tasg allweddol 3

Ystyried opsiynau ar gyfer cyflenwi/adnewyddu/prynu/trefniadau llogi offerynnau cerdd

**Argymhellion**

6. O fewn y deuddeg mis nesaf, dylai **CLlLC, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill,** gomisiynu cronfa ddata genedlaethol o offerynnau cerdd (yn ôl categori, safon a chyflwr) er mwyn canfod bylchau, a chyda'r bwriad y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cydweithio i ailddosbarthu'r offerynnau presennol er budd pawb.

7. O fewn y chwe mis nesaf, dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gydweithio â rhanddeiliaid eraill**, archwilio sut y gall cynllun prynu offeryn unigol 'Take it Away' ychwanegu at gynlluniau cyfredol ar gyfer prynu a llogi offerynnau cerdd

8. Dylai **Llywodraeth Cymru** gydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y chwe mis nesaf i ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i brynu offerynnau craidd ar y cyd.

9. Dylai **gwasanaethau cerddoriaeth awdurdod lleol** gydweithio dros y ddwy flynedd nesaf i ddatblygu cynlluniau rhannu/trwsio/cynnal gyda'r nod o ffurfio darpariaeth gyson ledled Cymru, a dylent hefyd weithio gyda'i gilydd, a chyda rhanddeiliaid eraill i gynnal diwrnod amnest offerynnau cenedlaethol.

**Dros y 12 mis diwethaf, mae'r awdurdodau lleol wedi archwilio sut all cronfa ddata genedlaethol o offerynnau cerdd helpu i ailddosbarthu offerynnau ac felly gwneud defnydd gwell o'r adnoddau presennol.**

**Bydd CILIC, gyda cymorth Llywodraeth Cymru, yn awr yn edrych i sefydlu dull rhannu offerynnau yn genedlaethol, gyda'r gwaith yn dechrau yn y flwyddyn ariannol 2017/18. Yn ogystal bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £220,000 (£10,000 fesul awdurdod lleol) y brynu offerynnau newydd y gellir eu hychwanegu at a'u rheoll drwy'r dull rhannu offerynnau.**

**Mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn cydweithio i nodi'r cyfleoedd a'r heriau posibl a ddaw yn sgil cynllun ar y cyd ar gyfer atgyweirio a chynnal offerynnau. Cytunwyd nad oedd cynllun o'r fath yn ymarferol, ond y dylid datblygu canolfan ailgylchu genedlaethol er mwyn helpu i ddarparu offerynnau.**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth (gweler argymhelliad 13). Bydd y bwrdd annibynnol rydym yn bwriadu ei sefydlu i reoli'r gwaddol yn goruchwylio'r modd y mae'r grantiau a ddosbarthwyd o dan y gronfa yn cael eu targedu. Bydd prynu offerynnau cerdd ar gyfer pobl ifanc yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses hon.**

**Mae Cyngor Celfyddydau Cymru dal wrthi'n archwilio rôl ac ymarferoldeb cynllun Take It Away sy'n cynnig benthyciadau di-log i brynu offeryn a ad-delir mewn rhandaliadau. Mae'r Cyngor wedi cael trafodaethau cychwynnol â CLlLC ynghylch y posibilrwydd o ymchwilio i'r cynlluniau prynu offerynnau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru er mwyn darparu trosolwg o'r sefyllfa ac ystyried y ffordd orau o ategu'r hyn sydd eisoes ar gael**

**Mae Llywodraeth Cymru a CLlLC wedi dechrau cwmpasu cychwynnol ar gyfer darparu Wythnos Amnest Offeryn Cerddorol Cymru. Bwriedir i hyn ddigwydd yn ystod gwanwyn/haf 2017.**

## Tasg allweddol 4

Ystyried y potensial am fwy o waith partneriaeth

**Argymhellion**

10. Dylai **CCAC** adolygu cyfansoddiad y grŵp penaethiaid gwasanaethau cerddorol (CAGAC) o fewn y chwe mis nesaf, a diwygio'r cylch gorchwyl i adlewyrchu blaenoriaethau strategol sy'n dod i'r amlwg.

11. Dylai **Llywodraeth Cymru** gysylltu â Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru o fewn y chwe mis nesaf ac archwilio'r potensial am fwy o waith partneriaeth.

**Mae CCAC wedi adolygu cyfansoddiad CAGAC ac wedi gwneud newidiadau a fydd yn helpu'r grŵp i ymateb yn well i'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Ceir crynodeb llawn o gyfansoddiad newydd CAGAC yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

**Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru i Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth Cymru a byddant yn parhau i weithio gyda'r partneriaid hyn a'r rheini yn CLlLC a CAGAC.**

**Mae cynrychiolwyr o CAGAC ar y Fforwm a byddent yn croesawu'r cyfle i weithio gyda phartneriaid i fireinio eu cylch gwaith a'u cynnig i ysgolion. Bydd CAGAC yn parhau i weithio gyda'r Fforwm i sicrhau bod pob Gwasanaeth Cerddoriaeth yn cael y cyfle i nodi anghenion a chyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i osgoi dyblygu.**

## Tasg allweddol 5

Datblygu cyfres o ddisgwyliadau gofynnol, a strwythurau a chylch gorchwyl enghreifftiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru.

**Argymhellion**

12. Gan ddechrau ar unwaith, dylai **awdurdodau lleol** gydweithio ag ysgolion a chyrff llywodraethu dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn mabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cylch gorchwyl hwn.

13. Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru** a **Llywodraeth Cymru** ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth, a'r cyfyngiadau ar hynny, er mwyn datblygu cyfleoedd i bobl ifanc wireddu eu posibiliadau drwy sgiliau a doniau cerddorol. Wrth

ymchwilio, dylid ystyried y model a'r adnoddau ar gyfer gwaddol o'r fath, gan gynnwys y posibiliad o gyflwyno ardoll wirfoddol ar docynnau, a dylai'r Gweinidogion dderbyn adroddiad ar ddichonoldeb cychwynnol o fewn chwe mis.

**Croesawodd CLlLC a CAGAC y pwyslais y mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei roi ar wella cysondeb wrth gyflenwi gwasanaethau cerddoriaeth drwy hybu cydweithio rhwng awdurdodau lleol. Wrth symud ymlaen â'r gwaith o dan yr argymhelliad hwn, maent wedi nodi sawl her. Roedd yr heriau hyn yn ymwneud yn bennaf ag agweddau ar y broses gyflenwi yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan bwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol.**

**Er bod yr heriau hyn yn gysylltiedig â lefelau cyllid, mae'r ddau sefydliad yn parhau'n ymrwymedig i weithio gyda rhanddeiliaid o fewn yr awdurdodau lleol a'r sector addysg i ddod o hyd i atebion sy'n gallu cynnal a chefnogi Gwasanaethau Cerddoriaeth i ysgolion.**

**Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, wedi cwblhau'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer sefydlu Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth.**

**Bellach, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno'r ffynhonnell newydd a hirdymor hon o incwm i helpu i gyflenwi gweithgareddau cerddorol ychwanegol ar gyfer pobl ifanc. Ar 14 Chwefror, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y bydd cyfraniad ar y cyd o £1 miliwn yn cael ei wneud i'r gronfa mewn partneriaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Bydd hyn yn talu am gostau sefydlu'r gronfa ac yn darparu cyllid sbarduno y bydd modd i'r bwrdd annibynnol a fydd yn gweinyddu'r gwaddol adeiladu arno.**

**Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r gwaddol, gyda golwg ar ei lansio yn nes ymlaen eleni.**

## Tasg allweddol 6

Datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth i'r holl awdurdodau lleol gytuno arno.

**Argymhellion**

15. Gan ddechrau ar unwaith lle bo'n briodol, dylai **awdurdodau lleol** fynd ati ar y cyd i weithio ac adeiladu modelau gwasanaeth, gan anelu i sicrhau eu bod yn esgor ar ddarpariaeth o safon uchel sy'n cynnig gwerth am arian. Dylid defnyddio memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau i adlewyrchu modelau

| |
|---|
| cyflenwi/gwasanaeth, arferion gwaith a threfniadau partneriaeth cyfredol; yn ogystal â hyn, dylid rhannu memoranda o'r fath ag awdurdodau lleol eraill fel enghreifftiau o gydweithio ac arfer da. |
| **Ar ôl cyhoeddi canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerddoriaeth, mae CAGAC wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i nodi'r rheini sydd eisoes yn gweithio mewn partneriaeth, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ac a oes modd cynyddu ac ehangu'r mathau hyn o drefniadau cydweithio.**<br><br>**Yn ystod y broses hon, maent wedi nodi nifer o rwystrau sy'n atal awdurdodau lleol rhag cydweithio. Byddant yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol i oresgyn y rhwystrau hyn a'u helpu i greu a chynnal trefniadau cydweithio dros y misoedd nesaf.** |

## Atodiad: Crynodeb o CAGAC ar ei newydd wedd

Is-grŵp Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) yw CAGAC (Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru), a chaiff ei drefnu drwy Grŵp Cydgysylltu Gwelliannau CCAC.

**Nod y gymdeithas**

Hyrwyddo addysg gerddorol awdurdodau lleol yng Nghymru - gan sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc y cyfle i ddysgu, chwarae offeryn a chanu.

**Amcanion**

- Cefnogi gwasanaethau cerddoriaeth fel y gallant fodloni anghenion ysgolion mewn perthynas ag amrywiaeth o wasanaethau ac ansawdd y gwasanaethau, gan gynnwys cefnogi athrawon dosbarth cyffredinol ac ymarferwyr nad ydynt yn addysgu cerddoriaeth i gyflawni gofyniad y cwricwlwm cenedlaethol.

- Herio gwasanaethau cerddoriaeth i fodloni anghenion dysgwyr ar gyfer gwersi unigol/mewn grwpiau sy’n fforddiadwy ac o ansawdd uchel a gaiff eu cyflwyno gan staff sydd wedi'u hyfforddi, a chynnig cyfleoedd i wella a gallu symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch.

- Bod gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd y gweithrediadau drwy hwyluso rhwydweithio effeithiol â chyrff eraill; a rhannu arferion da ar draws pob un o wasanaethau cerddoriaeth yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

- Cynrychioli ac adlewyrchu safbwyntiau CCAC mewn perthynas ag addysg gerddorol yng Nghymru, gan ddarparu cymdeithas genedlaethol ragweithiol ac ymatebol ar ran CCAC.

- Adlewyrchu polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru - ac ymateb iddynt ar gyfer addysg gerddorol a'r gwasanaethau cerddoriaeth a ddarperir yng Nghymru.

**Aelodaeth**

Aelodau'r gymdeithas yw cynrychiolwyr gwasanaethau cerddoriaeth yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru a enwebwyd, a chaiff patrwm y rolau ei ddiffinio gan bob awdurdod.

**Swyddogion**

1. Cadeirydd – yn gwasanaethu cyfnod o 18 mis
   - Hwyluso a chadeirio pob cyfarfod

   - Bod yn brif gyswllt ar gyfer gohebiaeth a dderbynnir ac a anfonir.

- Bod yn llefarydd ar ran y gymdeithas

2. Cynrychiolydd Gogledd Cymru - yn gwasanaethu cyfnod o 18 mis

   - Dirprwyo yn absenoldeb y cadeirydd
   - Cynorthwyo CAGAC wrth hwyluso grwpiau gorchwyl a gorffen pan fydd angen gwneud
   - Olynu'r cadeirydd ar ddiwedd y cyfnod o 18 mis (yn amodol ar gynnal pleidlais)

3. Cynrychiolydd De Cymru

   - Dirprwyo yn absenoldeb y cadeirydd
   - Cynorthwyo CAGAC wrth hwyluso grwpiau gorchwyl a gorffen pan fydd angen gwneud
   - Olynu'r cadeirydd ar ddiwedd y cyfnod o 18 mis (yn amodol ar gynnal pleidlais)

4. Cynrychiolydd o CCAC/CLlLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

   - Hwyluso'r cysylltiad â CLlLC a thynnu sylw at unrhyw wybodaeth berthnasol i'w gweithredu ac er gwybodaeth
   - Hysbysu CAGAC am bolisïau a gwybodaeth berthnasol yn unol ag amcanion a nodau Llywodraeth Cymru o ran addysg

5. Ysgrifennydd / Trysorydd - gallent gael eu hethol eto ar ddiwedd y cyfnod o 18 mis

   - Bod yn gyfrifol am ddosbarthu papurau a gwaith cyllid CAGAC

**Pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd**

Bydd y gymdeithas yn cyfarfod unwaith y tymor, ar ddiwrnodau gwaith - un cyfarfod yn y De, un cyfarfod yn y Canolbarth ac un yn y Gogledd. Y Gwasanaethau Cerddoriaeth a fydd yn eu tro yn cynnal y cyfarfodydd hyn. Bydd cyfarfodydd eraill ar gyfer y cwricwlwm a/neu grwpiau gorchwyl a gorffen y gwasanaethau cerddoriaeth yn cael eu trefnu pan fydd angen gwneud.

**Ymlyniad**

Bydd cynrychiolwyr CAGAC a enwebwyd yn mynychu'r canlynol:

I. Paneli Cynghori pob un o ensembles CCIC
II. Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth
III. Cymdeithas y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Gerdd – Music Mark

IV. CAG – Cyngor Addysg Gerddorol
V. CCC – Rhwydweithiau Rhanborthol

Bydd yr enwebiadau hyn yn cael eu cadarnhau bob 18 mis - yr un pryd â'r etholiad am swyddogion

**Rhwydweithio**

Caiff y rhai hynny nad ydynt yn aelodau eu gwahodd gan y cadeirydd i ddod i gyfarfodydd y gymdeithas pan fydd gofyn gwneud yn ôl yr agenda.

**Atebolrwydd**

**Caiff cofnodion pob cyfarfod eu cofnodi. Anfonir y cofnodion at Gyfarwyddwyr Addysg / Prif Swyddogion Addysg ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol.**